Polisi Teithio a Chynhaliaeth - Aelodau'r Cyngor	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Higher Education Funding Council for Wales hefcw

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi Teithio a Chynhaliaeth hwn yn berthnasol i holl Aelodau Cyngor CCAUC.

2. Mae'n ofynnol i'r uchod ymgyfarwyddo â'r Teithio a Chynhaliaeth a'i weithdrefnau ategol. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar yr allrwyd ac/neu gellir eu darparu ar ffurf copi caled.

Datganiad Polisi

3. Mae'r polisi Teithio a Chynhaliaeth hwn yn cadarnhau ymrwymiad CCAUC i ad-dalu aelodau Cyngor am dreuliau y maent yn eu hysgwyddo'n wirioneddol, ac o reidrwydd, wrth deithio i ddibenion swyddogol neu gyflawni busnes swyddogol. Mae teithio i ddibenion swyddogol neu gyflawni busnes swyddogol yn golygu teithio neu fusnes i ddibenion busnes swyddogol CCAUC.

4. Mae'r polisi Teithio a Chynhaliaeth a'r gweithdrefnau ategol wedi cael eu hadolygu'n unol â dyletswyddau penodol CCAUC o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

5. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod aelodau'n cael eu had-dalu'n ddi-oed am dreuliau hanfodol a ysgwyddir wrth gyflawni eu dyletswyddau. Disgwylir i aelodau'r Cyngor ddilyn y gweithdrefnau Teithio a Chynhaliaeth a chadw treuliau o fewn terfynau'r polisi hwn.

6. Mae CCAUC yn annog aelodau'r Cyngor i leihau ein hôl troed carbon, a defnyddio'r dull teithio mwyaf effeithlon ac economaidd, sy'n arbed arian a hefyd yn arbed amser ac egni'r aelod ei hun.

Cyfrifoldeb ac Adrodd

7. Mae amryw o bobl yn gyfrifol am reoli polisi Teithio a Chynhaliaeth Aelodau Cyngor CCAUC a'r gweithdrefnau sy'n sail iddo, sef:
    - y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am y polisi hwn ac am weithio gyda'r staff canlynol i gynghori ynghylch, a chydgysylltu mewnbwn teithio a chynhaliaeth i'n dyletswyddau, fel y nodir isod:
    - y Rheolwr Cyflogres, sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â phrosesu cyflogau a chostau teithio a chynhaliaeth CCAUC ar gyfer Aelodau'r Cyngor; ac
    - aelodau o'r tîm Cyllid er mwyn cynnal gwiriadau cychwynnol a chofnodi ffurflenni hawlio

8. Bydd y polisi Teithio a Chynhaliaeth hwn yn cael ei adolygu gan y Tîm Rheoli, y Cyngor Gwaith a Phwyllgor AD y Cyngor bob tair blynedd (oni fydd angen adolygiadau neu ddiwygiadau mwy mynych yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth neu fframweithiau rheoleiddio perthnasol).

Dogfennau ategol

9. Mae'r dogfennau canlynol yn ategu'r polisi Iechyd a Diogelwch hwn:
   - Teithio a Chynhaliaeth - Gweithdrefnau Aelodau'r Cyngor
   - Ffurflenni Hawlio Teithio a Chynhaliaeth Aelodau Cyngor

Fersiwn	**Dyddiad**	**Sylwadau**
0.1	Gorffennaf, 2015	Drafft wedi'i gyflwyno i ddefnyddwyr terfynol ar gyfer ymgynghoriad
0.2	Gorffennaf 2016	Cymeradwywyd gan y Pwyllgor AD a'i gyflwyno i'r Cyngor
0.3	Ebrill 2021	Tîm Rheoli, y Cyngor Gwaith, Pwyllgor AD

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.